

Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru
Royal College of Nursing Wales

# Gofalu am bobl hŷn

## Rôl hanfodol nyrs cartref gofal

SAFE STAFFING SAVES LIVES
MAE STAFFIO DIOGEL YN ACHUB BYWYDAU

FAIR PAY FOR NURSING
TÂL TEG AR GYFER NYRSIO

# Crynodeb gweithredol

Mae Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru (RCN) yn cynrychioli tua 29,500 o aelodau, a dwy ran o dair ohonynt yn gweithio yn y gymuned a llawer ohonynt mewn cartrefi gofal. Mae gofal diogel, effeithiol ac o ansawdd uchel yn flaenoriaeth i'r holl aelodau.

Mae nyrsys cofrestredig yn chwarae rôl hanfodol mewn cartrefi gofal cofrestredig. Mae'r prinder nyrsys cofrestredig cymwys yn destun pryder sylweddol, gan effeithio ar gynaliadwyedd y ddarpariaeth gofal nyrsio a sefydlogrwydd y sector gofal preswyl.

Fel rhan o'i raglen waith ar ofal diogel ac effeithiol, mae RCN Cymru wedi defnyddio ymchwil ac adborth gan ei aelodau i ystyried yr heriau yn ymwneud â nyrsio mewn cartrefi gofal.

Argymhellir set gydlynol o gamau gweithredu i ymateb i'r heriau. Mae rhai o'r rhain wedi'u cyflwyno'n flaenorol gan yr RCN. Maent yn berthnasol o hyd ac, fel rhan o becyn estynedig o fesurau, byddant yn cael mwy o effaith.

**SAFE STAFFING SAVES LIVES**
**MAE STAFFIO DIOGEL YN ACHUB BYWYDAU**

**FAIR PAY FOR NURSING**
**TÂL TEG AR GYFER NYRSIO**

**Gwell tystiolaeth:** Mae angen set ddata genedlaethol i wella gwybodaeth am y gweithlu nyrsio mewn lleoliadau gofal preswyl. Dylid defnyddio hwn i gefnogi comisiynu addysg nyrsio. Dylai Gweinidogion Cymru ystyried sut y gellid cefnogi a datblygu darlun cliriach o'r gweithlu mewn partneriaeth â'r cyrff cyhoeddus perthnasol, gan gynnwys RCN Cymru. Byddai dysgu o brosiect unigol yn llywio'r gwaith o ddatblygu sylfaen dystiolaeth gynaliadwy, hirdymor i gyfrannu at ddeall anghenion y gweithlu'n well yn y dyfodol.

**Gwella trefniadau goruchwylio:** Darparwyr annibynnol i weithredu yn llawn argymhellion y gwaith a gomisiynwyd gan y Prif Swyddog Nyrsio a'r datganiad safbwynt ar oruchwyliaeth glinigol, a'r gweithredu hwn yn cael ei ysgogi gan Lywodraeth Cymru. Hefyd, astudiaeth genedlaethol ar thema nyrsio o gydymffurfiaeth yn erbyn gofynion Rhan 10 o Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) h.y., y trefniadau a wneir ar gyfer cefnogi a datblygu staff.

**Deddfwriaeth effeithiol:** Ystyriaeth gan Weinidogion Cymru o'r angen i gryfhau'r fframwaith deddfwriaethol presennol er mwyn sicrhau bod Arolygiaeth Gofal Cymru yn arolygu gwasanaethau a chomisiynu gwasanaethau yn systematig. Mae Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar fyrddau iechyd i ystyried ansawdd gofal yn yr holl wasanaethau y maent yn eu comisiynu. Dylai Llywodraeth Cymru archwilio cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd hon fel rhan o'i fframwaith perfformiad. Wrth baratoi ar gyfer ymestyn dyletswydd methodoleg lefel staff nyrsio (25B) y Ddeddf, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod cydymffurfiaeth â Safonau Gweithlu'r RCN yn rhan o'r fframwaith arolygu a chomisiynu.

**Proffil uwch ar gyfer nyrsio mewn cartrefi gofal:** Cefnogaeth gan Weinidogion Cymru i adeiladu ar waith presennol gan RCN Cymru i godi proffil nyrsio mewn cartrefi gofal drwy straeon fideo, er mwyn gwneud mwy o waith i ddisgrifio rôl nyrsio mewn cartrefi gofal. Wrth gydnabod heriau recriwtio i hyfforddiant nyrsio, mae RCN Cymru o'r farn y dylai nyrsio mewn cartrefi gofal fod yn elfen annatod o waith i fynd i'r afael â phrinder staff nyrsio. Er y bu lleoliadau myfyrwyr nyrsio mewn cartrefi gofal yn gam cadarnhaol, mae angen i Weinidogion wneud mwy o waith i sicrhau bod hyn yn digwydd ym mhob maes ac i gefnogi hyfforddiant nyrsys yn y sector gofal preswyl.

**Cynllun Prentisiaeth Nyrsio Cenedlaethol:** Mae cynllun gweithredu cenedlaethol ar gyfer y gweithlu Llywodraeth Cymru yn nodi y bydd Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) yn ystyried cynllun prentisiaeth nyrsio cenedlaethol erbyn mis Ionawr 2024. Er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r heriau staffio nyrsio critigol y mae'r sector cartrefi gofal yn eu hwynebu, dylai'r cynllun prentisiaeth nyrsio cenedlaethol hwn fod ar gael i nyrsys cartrefi gofal yn ogystal â'r GIG.

**Datblygiad proffesiynol parhaus (DPP):** Mae angen i Lywodraeth Cymru ac AaGIC weithio gyda'r sector cartrefi gofal i sicrhau bod y Cymhwyster Ymarfer Arbenigol ar gyfer gofal cymdeithasol ar gael i nyrsys cofrestredig. Mae datblygu byrddau iechyd yn fyrddau iechyd prifysgol wedi gwella'r posibiliadau dysgu a datblygu proffesiynol ar gyfer nyrsys yn y GIG. Dylai nyrsys mewn cartrefi gofal gael yr un cyfleoedd i ddatblygu eu gyrfaoedd. Mae angen sicrhau mynediad cyson i nyrsys mewn cartrefi annibynnol i fewnrwyd y GIG ar gyfer dysgu/hyfforddiant. Er bod hyn yn gwella yng ngorllewin a gogledd Cymru, drwy sefydlu rhwydweithiau cartrefi gofal cydweithredol, mae ei angen ledled Cymru. Mae proses Cymru gyfan i sicrhau bod nyrsys arbenigol ar gael ac arbenigwyr nyrsio clinigol i gael cyngor hefyd yn flaenoriaeth, oherwydd mewn rhai mannau, mae'n rhaid i nyrsys ddibynnu ar gysylltiadau proffesiynol a ffrindiau i gael y cyngor sydd ei angen arnynt.

Coleg Nyrsio Brenhinol
Cymru
Royal College of Nursing
Wales

## Ynglŷn â'r Coleg Nyrsio Brenhinol (RCN)

Y Coleg Nyrsio Brenhinol yw'r sefydliad proffesiynol ac undeb llafur mwyaf yn y byd ar gyfer nyrsio, gan gynrychioli dros 465,000 o nyrsys, bydwragedd, ymwelwyr iechyd, gweithwyr cymorth gofal iechyd a myfyrwyr nyrsio, gan gynnwys dros 26,000 o aelodau yng Nghymru. Mae aelodau'r RCN yn gweithio yn y sector annibynnol a'r GIG. Mae tua dwy ran o dair o'n haelodau wedi'u lleoli yn y gymuned. Mae RCN yn sefydliad ledled y DU, gyda Byrddau Cenedlaethol yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Mae RCN yn cynrychioli nyrsys a gwasanaethau nyrsio, yn hyrwyddo rhagoriaeth mewn ymarfer nyrsio ac yn llywio polisi iechyd a gofal cymdeithasol.

010 935

Mai 2023